Arolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddu Ieuenctid

# Paratoi ar gyfer ALIC

# Canllawiau ar gyfer Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid

Cynnwys

1 Cyflwyniad ..... 4
2 Beth yw Arolygiad Llawn ar y Cyd? ..... 4
3 Beth sy'n digwydd pan gaiff yr arolygiad ei gyhoeddi? ..... 5
4 Paratoi ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes ..... 7
5 Gwaith Maes Wythnos 1 ..... 9
6 Rhwng y ddwy wythnos ar y safle ..... 10
7 Paratoi ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes ..... 12
7a Cyfranogiad Defnyddwyr ..... 14
7b Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi - trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes ..... 17
7c Iechyd – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes ..... 18
7d Gofal Cymdeithasol – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes ..... 19
7e Dysgu a Medrau – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes ..... 20
7f Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi ..... 20
8 Gwaith Maes Wythnos 2 ..... 21
9 Cyfarfod canfyddiadau'r arolygiad ..... 22
10 Rhestr wirio o weithgareddau paratoadol ar gyfer yr arolygiad ..... 23

# 1 Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer rheolwyr yr YOT ac eraill mewn ardal lle mae arolygiad wedi cael ei gyhoeddi. Mae hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw Reolwr YOT sy'n dymuno datblygu cynllun wrth gefn rhag ofn i arolygiad gael ei gyhoeddi yn ei ardal.

**Pwrpas y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar y gweithgareddau y bydd rhaid i chi ymgymryd â nhw cyn Arolygiad Llawn ar y Cyd o waith troseddu ieuenctid yn eich ardal leol, ac i roi manylion o'r gwaith fydd yn digwydd ar y safle.**

Dylech ei darllen law yn llaw gyda:

- Y Meini Prawf ar gyfer Arolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddu Ieuenctid a'r
- Fframwaith ar gyfer Arolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddu Ieuenctid.

Mae'r ddwy ddogfen ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation ac ar gael o'n swyddfa ym Manceinion.

Os byddwch yn gyfarwydd â chynnwys y ddogfen hon bydd yn galluogi cynnal arolygiad esmwyth ac effeithiol ac yn cael cyn lleied â phosibl o effaith ar waith eich YOT.

*DS: Ceisiwn ymateb i'r dystiolaeth a'r amgylchiadau a ganfyddwn. Mae'r ddogfen hon yn darparu ein disgwyliadau gorau o'r trefniadau, ond cadwn yr hawl i ddiwygio pan fyddwn ar y safle, yn enwedig yn ystod Wythnos 2 y Gwaith Maes.*

# 2 Beth yw Arolygiad Llawn ar y Cyd?

- Mae'r ALlC yn arolygiad ar y cyd o waith troseddu ieuenctid dan arweiniad Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi.
- Yn Lloegr mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted (Gofal Cymdeithasol a Dysgu a Sgiliau) ac Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi yn bartneriaid.
- Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi yng Nghymru (Estyn), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi yn bartneriaid.
- Gan fod hwn yn arolygiad ffurfiol ar y cyd, mae'n hanfodol fod pob partner lleol perthnasol yn cydnabod statws yr arolygiaeth a phwysigrwydd bod yn gwbl ymroddedig i gyfrannu tuag ato. Os bydd achosion lle nad yw'r ymroddiad hwn yn digwydd anogir yr YOT i ddwysáu hyn drwy ei Fwrdd Rheoli, ac os bydd angen, drwy Brif Weithredwr ei Awdurdod Lleol hefyd.

  Mae'r ALlC yn cynnwys dwy wythnos ar y safle gydag wythnos rhyngddynt. Yn ystod Wythnos 1 y Gwaith Maes byddwn yn asesu achosion, ac yn Wythnos 2 bydd yr arolygiaethau eraill yn ymuno â ni i edrych ar nifer o achosion yn fanylach, i gyfweld staff, rheolwyr a defnyddwyr gwasanaeth ac i arsylwi ymarfer.
- Mae pob arolygiad ALlC yn cynnwys modiwl craidd sy'n ffocysu ar ansawdd gwaith mewn achosion statudol, gydag un neu ddau fodiwl ychwanegol. Ar gyfer pob arolygiad rhwng Medi 2012 a Mawrth 2013, un o'r modiwlau ychwanegol yw Llywodraethu, a bydd y defnydd o'r modiwl hwn yn parhau i fod yn fynych oherwydd yr effaith y mae trefniadau llywodraethu'n eu cael ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth. Fel arfer, caiff y

modiwlau eu dewis mewn ymateb i'r rheswm dros arolygu, yn gysylltiedig â pherfformiad ar fesurau canlyniadau cyfiawnder ieuenctid. Ni ddylai'r trefniadau ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes gael eu heffeithio gan y dewis o fodiwlau, ar wahân i Atal Cynnar a Gwarediadau Tu Allan i'r Llys, fyddai'n golygu bod angen sampl achosion ychwanegol ar wahân a byddai'n cynnwys cael arolygydd ychwanegol ar y safle.

- Rhestr bresennol y modiwlau ychwanegol yw:
    - Atal Cynnar a Gwarediadau Tu Allan i'r Llys
    - Gwaith Llys
    - Ymyriadau
    - Gwaith Cyffuriau ac Alcohol
    - Llywodraethu
    - Rhieni a Gofalwyr
    - Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol

  Mae'r amrywiaeth o fodiwlau arolygu ychwanegol yn debyg o ddatblygu dros amser. Cyhoeddir meini prawf arolygu ar gyfer y modiwlau ychwanegol ar wahân.

# 3 Beth sy'n digwydd pan gaiff yr arolygiad ei gyhoeddi?

- Bydd Rheolwr yr YOT yn cael ei **hysbysu dros y ffôn**, fel arfer gan yr Arolygydd Arweiniol, ar y dydd Gwener, 11 diwrnod gwaith cyn cychwyn Wythnos 1 y Gwaith Maes. Os nad yw Rheolwr yr YOT ar gael pan fyddwn yn ffonio, byddwn fel arfer yn ceisio siarad gyda rheolwr ar ddyletswydd, ac os nad yw hynny'n bosibl byddwn yn symud i fyny'r hierarchaeth rheoli er mwyn sicrhau fod hysbysu amserol wedi digwydd. Bydd yr arolygydd arweiniol yn trefnu cyfarfod cynllunio ar gyfer y dydd Llun neu'r dydd Mawrth canlynol (gweler isod am fanylion pellach). Ond NI ddylai'r gwaith o gychwyn ar y paratoadau ar gyfer yr arolygiad aros tan y cyfarfod cynllunio.
- **Caiff cadarnhad e-bost** o gyhoeddiad yr arolygiad ei anfon at Brif Weithredw(y)r yr Awdurdod Lleol, Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant neu gyfatebol a Rheolwyr yr YOT gyda manylion o drefniadau'r arolygiad a'r modiwlau ychwanegol.
- **Y dogfennau eraill** sy'n cael eu darparu ar yr adeg hon yw:
    - **Manyleb samplau achosion a thaenlen** i'w cwblhau gan yr YOT a'u dychwelyd at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn hanner dydd ar y dydd Iau 7 diwrnod gwaith cyn cychwyn Wythnos 1 y Gwaith Maes
    - **Cais am Wybodaeth Ymlaen Llaw** - i ddarparu cyd-destun ac i hysbysu gweithgareddau'r arolygiad. Dylid anfon hwn yn electronig at yr Arolygydd Arweiniol a'r Swyddog Gwasanaethau Cefnogi i gyrraedd erbyn hanner dydd ar y dydd Iau 2 ddiwrnod gwaith cyn cychwyn Wythnos 1 y Gwaith Maes, gydag un copi papur yn cael ei ddarparu i'r Arolygydd Arweiniol pan fydd yn cyrraedd ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes:
        - Polisi/gweithdrefnau'r YOT ar gyfer rheoli risg o niwed i eraill
        - Polisi/gweithdrefnau'r YOT mewn perthynas ag amddiffyn plant a rheoli breguster

    - Polisi/gweithdrefnau'r YOT ar gyfer rheoli trosolwg ymarfer
    - Trefn Sicrhau Ansawdd yr YOT ar gyfer gwaith achos ac adroddiadau llys
    - Cynllun busnes cyfredol (neu ddiweddaraf) yr YOT (Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid), cynlluniau gwella a'r diweddariadau cyfredol.
    - Siart strwythur yr YOT (yn cynnwys enwau) - un copi ar gyfer pob arolygydd.

  Dylid anfon copi electronig o'r dogfennau hyn hefyd at Swyddog Gwasanaethau Cefnogi Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi i'w hanfon ymlaen at yr arolygwyr fydd yn cymryd rhan yn Wythnos 2 y Gwaith Maes. Gellir darparu gwybodaeth ymlaen llaw drwy fynediad i wefan ddiogel yn hytrach na drwy e-bost os mai dyna ddewis yr YOT.

  *DS: Ac eithrio'r siart strwythur, os nad yw pob un o'r dogfennau hyn yn bodoli, yna NID oes gofyn i'r YOT eu datblygu'n benodol ar gyfer yr arolygiad. Yn yr achos hwn bydd yr Arolygydd Arweiniol yn trafod y sefyllfa gyda Rheolwr yr YOT.*

  - **Y Tîm Arolygu - ar y safle a chefnogaeth swyddfa** - manylion y tîm arolygu, yn cynnwys y Swyddog Gwasanaethau Cefnogi fydd yn darparu enw i fod yn un pwynt cyswllt. Bydd y Swyddog Gwasanaethau Cefnogi yn darparu manyleb o'r sampl achosion, amserlen yr arolygiad ac unrhyw agwedd logistaidd neu weinyddol o'r gwaith paratoi at yr arolygiad.
  - **Templed amserlen Wythnos 1 y Gwaith Maes** - gweler isod am fanylion.

- **Bydd cyfarfod cynllunio'r arolygiad** yn cael ei drefnu ar gyfer dydd Llun neu ddydd Mawrth yr wythnos ganlynol. Os yw hi'n bosibl, bydd y cyfarfod cynllunio'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb. Ond os nad yw hyn yn bosibl o fewn yr amser gofynnol yna bydd yn cael ei gynnal dros y ffôn. Dylech ganiatáu slot dwy awr ar gyfer hyn. Ymysg pethau eraill, mae hyn yn trafod:
  - **Dewis sampl achosion -**mae'r dull o ddewis achosion ar gyfer arolygiad yn debyg iawn i'r dull a ddefnyddiwyd yn y rhaglen flaenorol. Byddwch yn darparu rhestr hir o achosion o fewn cyfnod amser penodol a'i anfon atom ni erbyn hanner dydd ar y dydd Iau yr wythnos ar ôl y cyhoeddiad. Byddwn ni wedyn yn dewis rhestr fer a'i hanfon yn ôl atoch ar y dydd Llun 5 diwrnod gwaith cyn Wythnos 1 y Gwaith Maes. Ni fydd y sampl terfynol a ddewisir yn cael ei newid fel arfer. Mae'r sampl ar y rhestr fer yn ceisio bod yn gymysgedd cynrychioliadol o ryw, ethnigrwydd ac oedran gyda rhai achosion yn cael eu hasesu fel rhai bregus iawn neu risg uchel o niwed difrifol. Lle mae hynny'n bosibl, ceisiwn arolygu o leiaf un achos ar gyfer pob rheolwr ar y rhestr hir, ond nid oes modd gwarantu hynny.
  - **Anghenion defnyddwyr gwasanaeth neu staff unigol -** dywedwch wrthym am unrhyw anghenion arbennig gan staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth allai effeithio ar ein cyfranogiad gyda nhw, er mwyn i ni allu gweithio gyda'n gilydd i oresgyn y rhain cyn y cyfweliad.
  - **Cyfweliadau gyda Defnyddwyr Gwasanaeth yn Wythnos 2 y Gwaith Maes** Gofynnir i'r YOT ddechrau cynllunio'r rhaglen o gyfweliadau cyfranogiad defnyddwyr cyn gynted ag y bydd y sampl achosion terfynol wedi ei gadarnhau a'r amserlen ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes wedi ei gwblhau. Gweler Paratoi ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes, gweler 7a.

- **Amserlen Wythnos 1 y Gwaith Maes**- Byddwn yn gofyn i chi gynhyrchu amserlen ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes. Gofynnwn i chi ymgymryd â'r dasg hon am eich bod yn ymwybodol o ymrwymiadau eich staff a chi sydd yn y lle gorau i'w gosod yn yr amserlen ar fyr rybudd. Gwneir hyn unwaith y mae'r sampl terfynol wedi cael ei ddewis a'i anfon yn ôl at yr YOT, drwy boblogi model o amserlen (taenlen Microsoft Excel) gaiff ei ddarparu gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi gyda chyfeirnod yr achos ac enw'r rheolwr achos. Mae un dudalen ar gyfer pob arolygydd a 'sesiynau' wedi eu trefnu ymlaen llaw (2 awr haen gyntaf, achosion cymunedol/carchar 2 awr 30 munud) lle gellir gosod yr achosion. Mae'r sesiynau asesu achosion yn cychwyn am 3.15pm dydd Llun ac yn gorffen erbyn 1.30pm dydd Gwener. Caiff 30 munud pob sesiwn arolygu ei ddefnyddio gan yr arolygydd i ymgyfarwyddo â'r achos, felly dylai'r rheolwr achos penodedig ymuno â'r arolygydd ar ddiwedd y 30 munud cyntaf. Defnyddir y 15 munud olaf gan yr arolygydd i orffen ysgrifennu ei asesiad. Y tro cyntaf y byddwn yn cwrdd â phob rheolwr achos byddwn hefyd yn gofyn iddynt am eu profiad o drefniadau rheoli lleol.

  **Achosion dynodedig** - wrth gynhyrchu'r amserlen, dylai pob menyw ifanc (neu hyd at 5 i bob arolygydd os oes mwy na hyn) gael eu clustnodi i un arolygydd, a dylai'r un trefniadau gael eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc Du a Lleiafrifoedd Ethnig, a hynny i arolygydd gwahanol (hyd at 5 i bob arolygydd). Dylai unrhyw achosion amddiffyn plant, achosion sydd wedi eu hasesu'n rhai hynod fregus ac achosion sydd wedi eu hasesu'n risg uchel o niwed difrifol gael eu rhannu'n gyfartal rhwng y tîm arolygu drwy gydol yr wythnos. Fodd bynnag, dylai pob aseswr lleol fel arfer dderbyn uchafswm o ddau achos o'r fath ac ni ddylai'r un ohonynt fod ar brynhawn dydd Llun.

  **Rheolwyr achos**- os yn absennol yr wythnos flaenorol, amserlenwch yr achosion hyn yn ddiweddarach yn yr wythnos, ond **NID** ar y diwrnod cyntaf yn ôl os yn bosibl.

  - **Anfon yr amserlen yn ôl** - rhaid anfon hon at yr Arolygydd Arweiniol a'r Swyddog Gwasanaethau Cefnogi erbyn hanner dydd ar y dydd Iau yn union cyn y gwaith maes.

*DS: Dylid gofalu i sicrhau lefel diogelwch priodol wrth e-bostio gwybodaeth lefel achosion at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi . Gellir cysylltu â Swyddog Gwasanaethau Cefnogi penodedig Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi am arweiniad pellach am hyn.*

- **Cyfarfod Canfyddiadau'r Arolygiad - Wythnos 2 y Gwaith Maes Dydd Gwener 10-11.30 ganol dydd**

  Gweler adran 9 isod. Mae'n bwysig dros ben sefydlu amser y cyfarfod hwn a gwahodd y bobl berthnasol i ddod iddo.

# 4 Paratoi ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes

- **Y Tîm Arolygu** – ar gyfer y rhan fwyaf o arolygiadau mae'r tîm yn cynnwys Arolygydd Arweiniol (Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi), a Dirprwy Arweinydd Arweiniol (Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi), Asesydd Ymarfer (Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi,) ac AsesyddddLeol (cydweithiwr o YOT arall). Mae maint y tîm yn llai ar gyfer yr ychydig YOTau bach ac yn fwy ar gyfer yr YOTau mwy. Byddwch yn cael manylion adeg cyhoeddi'r arolygiad.

*DS Bydd yr holl staff, yn cynnwys Aseswyr Lleol ac Arbenigwyr Ymgysylltu â Defnyddwyr wedi cael gwiriad CRB uwch yn y 3 blynedd diwethaf.*

- **Bydd angen y canlynol ar bob un o'r tîm arolygu**
  - **Swyddfa / lle gwaith preifat** lle nad oes modd i'w sgyrsiau gyda'r rheolwyr achos gael eu clywed gan eraill yn hawdd, fel arfer i'w gadw drwy gydol yr wythnos. Yn y swyddfa hon:
    - terfynell gyda mynediad i'r system TG leol o gofnodion achos
    - soced drydan sbâr o fewn cyrraedd hawdd a diogel o'r ddesg (ar gyfer ein gliniaduron)
    - lle ar ddesg digon mawr ar gyfer yr offer ac i'r arolygydd a'r rheolwr achos fod yn gallu defnyddio'r system leol o gofnodion achos gyda'i gilydd
    - dwy gadair sy'n addas ar gyfer gweithio wrth y ddesg.
  - **Enw defnyddiwr personol** (h.y. at eu defnydd eu hunain) **a mynediad darllen yn unig** at y system leol o gofnodion achos, a hynny am yr wythnos gyfan. Lle mae gan YOT/awdurdod lleol gyfres o fynedfeydd generig i'w defnyddio gan arolygwyr ac ymwelwyr swyddogol eraill, yna gellir defnyddio'r rhain cyn belled â'u bod yn darparu mynediad i'r cofnod achosion cyfan a'r ffeiliau cysylltiedig.
  - **Dylid darparu mynediad i ddogfennau sy'n cael eu cadw ar systemau TG ar wahân** e.e. dogfennau wedi'u sganio, dogfennau prosesu geiriau megis llythyrau a chofnodion dioddefwyr o'r prif system reoli achosion.
  - **Amserlen** - dylid darparu copi wedi'i argraffu o'r amserlen lawn i bob aelod o'r tîm arolygu pan fyddan nhw'n cyrraedd ar y dydd Llun. Dylid darparu copi wedi'i argraffu o'r sampl terfynol llawn a ddewiswyd (yn cynnwys enwau) ar gyfer pob arolygydd - caiff hwn ei gadw yn adeilad yr YOT bob amser. Unwaith y bydd yr arolygydd wedi gorffen gyda'r rhestr samplau achosion, caiff ei ddychwelyd i'r YOT er mwyn ei ddinistrio'n ddiogel.
  - **Cofnodion papur** - ar ddechrau pob diwrnod dylid gosod y cofnodion achos papur y mae'r YOT yn eu cadw am bob achos sy'n cael ei arolygu y diwrnod hwnnw yn swyddfa'r arolygydd perthnasol. Dylai hyn gynnwys, er efallai eu bod yn cael eu dal ar wahân, y ffeil dioddefwr perthnasol (neu fynediad electronig os mai ar systemau TG y caiff hon ei dal) yn dangos manylion llawn pob cyswllt gyda'r dioddefwr a enwir, a phob ffeil berthnasol arall sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw e.e. ffeil rhieni/gofalwyr, cofnodion cadw, Goruchwylio ac Adolygu Dwys ac ati. Bydd yr arolygydd fel arfer yn cadw'r ffeiliau papur ac yn eu dychwelyd ar ddiwedd y dydd.

- **Mynediad i adeiladau** - bydd angen mynediad i'r swyddfa ar y tîm arolygu rhwng 8.30am a 6.00pm ar gyfer pob diwrnod ar y safle. Lle mae mynediad cynharach ar gael (o 8am) bydd arolygwyr sydd ar gael yn aml yn defnyddio hyn.
- **Safleoedd unigol neu ar sawl safle** - mae'r rhan fwyaf o arolygiadau ar un safle. Fodd bynnag, yn yr YOTau mwyaf gall yr arolygiad ymestyn dros ddau safle, yn amodol ar drafodaeth ymlaen llaw gyda'r Arolygydd Arweiniol. Beth bynnag yw'r drefn bydd pob aelod o'r tîm arolygu fel arfer wedi'i leoli ar un safle am yr wythnos.

- **Cyfweliadau gyda rheolwyr achos** - byddwn yn cynnal asesiadau achos gyda'r rheolwr achos YOT mwyaf perthnasol lle mae hynny'n bosibl. Disgwyliwn mai un rheolwr achos fydd fel arfer yn gyfrifol am gydlynu a goruchwylio pob agwedd o achos penodol, yn cynnwys Goruchwylio ac Adolygu Dwys ac unrhyw fewnbwn arbenigol. Y person hwnnw fel arfer yw'r un mwyaf priodol i gynrychioli'r achos gyda'r arolygydd. Os oes eraill, e.e. staff arbenigol, wedi rhoi mewnbwn arwyddocaol i'r achos, mae croeso iddynt fynychu hefyd, er ei bod yn debygol na fyddant yn bresennol am y cyfweliad i gyd.
- **Dim rheolwr achos ar gael**? Lle nad oes rheolwr achos addas ar gael, caiff yr achos a ddewiswyd ei arolygu o hyd, ond bydd yr arolygydd yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth sydd ar gael yng nghofnod achos yr YOT (electronig a phapur) heb gyfle am esboniad pellach.

  ***DS: Rydym yn gwerthfawrogi'n arbennig y mewnbwn gan reolwyr achos*** *- gallant sicrhau fod yr achos yn cael ei esbonio'n llawn. Gallwn ddarparu adborth gwerthfawr ar ansawdd eu gwaith; fel arfer dim ond pan fyddwn yn cwrdd â nhw y byddwn yn gwneud hyn. Felly byddwch cystal â galluogi rheolwyr achos i fynychu'r cyfarfodydd hyn lle mae hynny'n bosibl.*
- **Faint o achosion fyddwn ni'n eu harolygu**? Yn y rhan fwyaf o YOTau bydd 34 achos yn cael eu harolygu, yn nodweddiadol 7 achos haen cyntaf, 18 dedfryd gymunedol a 9 dedfryd o garchar sydd fel arfer wedi cael eu rhyddhau dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau fod y gwaith a arolygir yn ddigon diweddar, gall y cydbwysedd hwn gael ei addasu weithiau. Mewn YOTau llai, mae cyfanswm y sampl achosion yn gostwng i 23 achos, mewn YOTau mwy mae'n codi i 62 neu 84 achos.
- **Adborth** – gofynnwn i reolwyr achos unigol am eu hadborth ar ein prosesau arolygu drwy gyfrwng Survey Monkey. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu pob cyfeiriad e-bost i'n galluogi i wneud hyn. Mae'r adborth yn bwysig i ni er mwyn sicrhau fod yr holl staff arolygu'n cadw safonau ymarfer uchel.

# 5 Gwaith Maes Wythnos 1

- Bydd arolygwyr **ar y safle o 1.00pm dydd Llun i ddim hwyrach na 1.30pm dydd Gwener.** Bydd y gwaith a amserlenwyd yn rhedeg o 9.00am tan 5.30pm bob dydd. Wrth gwblhau'r amserlen PEIDIWCH â rhoi unrhyw gyfweliadau yn y rhannau sydd wedi eu blocio.
- Bydd yr wythnos yn cychwyn gyda briffio ar y safle ar Iechyd, Diogelwch a TG rhwng 1.30 a 2.00pm ar gyfer pob aelod o'r tîm arolygu.
- 2.15 pm - 3.15pm, bydd yr Arolygydd Arweiniol a'r Dirprwy Arolygydd yn briffio
  - o Cadeirydd y Bwrdd Rheoli ac aelodau eraill sydd ar gael;
  - o Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant
  - o Tîm rheoli'r YOT
  - o aelodau tîm staff yr YOT sydd ar gael

  ynghylch y trefniadau ar gyfer yr arolygiad.
- 3.15pm ymlaen - bydd aelodau'r tîm arolygu yn cychwyn ar yr asesiadau achos.

- 3.30 pm – 4.30 pm, bydd yr Arolygydd Arweiniol yn cynnal Cyfarfod Cynllunio Arolwg gyda Rheolwr yr YOT, cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyswllt Gweinyddol, gan sicrhau fod trefniadau'r arolygiad yn ei lle a cheisio deall agweddau perthnasol o gyd-destun lleol all hysbysu'r arolygiad mewn ffordd ddefnyddiol.
- 12.30 Dydd Gwener, bydd yr Arolygydd Arweiniol a Rheolwr yr YOT yn cael cyfarfod terfynol i drafod cynlluniau ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes ac i sicrhau fod trefniadau'n mynd yn eu blaenau. Bydd yr Arolygydd Arweiniol yn trafod unrhyw ofynion ychwanegol neu rai sydd wedi newid. Bydd yr YOT yn darparu enwau a manylion cyswllt y Rheolwyr Cyswllt ar gyfer yr arolygiaethau partner ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes – gweler adran 7.

# 6 Rhwng y ddwy wythnos ar y safle

- **Gwybodaeth ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes** – Mae angen i'r YOT ddarparu'r canlynol i'w dderbyn gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn y dydd Llun 5 diwrnod cyn Wythnos 2 y Gwaith Maes - yn electronig at yr Arolygydd Arweiniol, ac wedi eu copïo at y Swyddog Gwasanaethau Cefnogi i'w hanfon ymlaen at y tîm arolygu ar y cyd.

### Gwybodaeth Gyffredinol

  - Cofrestr o aelodau'r Bwrdd Rheoli yn dangos eu henwau, eu hasiantaethau, eu rôl a'u manylion cyswllt e-bost a ffôn.
  - Copïau o gofnodion y Bwrdd Rheoli ac is-bwyllgorau am y 12 mis diwethaf.
  - Siart strwythur ac enwau staff arbenigol ETE, iechyd a chamddefnyddio sylweddau ac eraill naill ai wedi'u lleoli yn yr YOT, neu y mae'r YOT yn gweithio'n agos gyda nhw.
  - Siart strwythur neu ddogfen arall sy'n dangos y dolenni gwahanol rhwng yr YOT ac asiantaethau neu fforymau eraill yn yr ardal sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol, yr awdurdod lleol, diogelwch y gymuned, iechyd a phlant.
  - Polisïau neu weithdrefnau ar ddefnyddio ymgysylltiad â defnyddwyr i hysbysu a gwella gwasanaethau; ynghyd ag unrhyw adroddiadau diweddar gan y bwrdd rheoli neu fanylion eraill am ganlyniadau diweddar yn dilyn ymgysylltiad â defnyddwyr.

*DS:* Ac *eithrio'r siart strwythur, os nad yw pob un o'r dogfennau hyn yn bodoli, yna NID oes gofyn i'r YOT eu datblygu'n benodol ar gyfer yr arolygiad. Yn yr achos hwn bydd yr Arolygydd Arweiniol yn trafod y sefyllfa gyda Rheolwr yr YOT.*

- **Gwybodaeth i'w darparu ar gyfer arolygwyr wrth iddynt gyrraedd ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes**

### Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael, ar bapur ac yn electronig o ddewis, ar gyfer yr Arolygydd Gofal Cymdeithasol:

  - Rhestr o blant a phobl ifanc sydd ar ddedfryd haen gyntaf neu gymunedol ar hyn o bryd, neu sy'n gwasanaethu dedfryd o garchar (wedi eu rhyddhau neu beidio) sydd

- â chynllun amddiffyn plant, neu sydd wedi bod ag un o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf
- sy'n Derbyn Gofal neu sy'n hysbys fel arall i'r awdurdod lleol fel plentyn mewn angen. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r rhestr hon nodi ai'r awdurdod lleol sy'n cael ei arolygu yw awdurdod cartref y plentyn neu'r person ifanc hefyd.
- Rhestr o ddarparwyr sy'n cynnig cymorth ychwanegol neu wasanaethau arbenigol eraill y mae'r YOT yn gweithio gyda nhw.

Os yw unrhyw un o'r plant neu'r bobl ifanc uchod ar y rhestr o rai wedi rhedeg i ffwrdd dylid nodi hyn yn glir.

DS: Mae'r cais uchod yn berthnasol i **bob** achos statudol sy'n agored i'r YOT ar yr adeg y caiff yr wybodaeth ei chynhyrchu i ni, nid dim ond i achosion ar y rhestr hir.

### Gwybodaeth ar addysgu, dysgu a sgiliau

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael, ar bapur ac yn electronig o ddewis, ar gyfer yr Arolygydd Dysgu a Sgiliau:

- Rhestr o isgontractwyr, os oes rhai, sy'n darparu Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg (ETE) ar ran yr YOT
- Os yn wahanol, rhestr o ddarparwyr ETE yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gyda phlant a phobl ifanc gydag angen ETE wedi'i asesu.
- Rhestr o unrhyw sefydliadau trydydd sector sydd ar hyn o bryd, neu sydd wedi bod yn ddiweddar, yn gweithio'n wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion ETE.
- Rhestr o blant a phobl ifanc, os oes rhai, sydd ar hyn o bryd yn destun cosb gymunedol/gwaith di-dâl.
- Rhestr o blant a phobl ifanc sy'n destun Goruchwylio ac Adolygu Dwys ar hyn o bryd.
- Gwybodaeth fonitro, os yw ar gael, sy'n dangos cyflawniadau/cyfraddau llwyddiant ETE plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOT yn yr ysgol, y PRU, sefydliadau carcharol ac mewn mannau eraill.

DS: Mae'r cais uchod yn berthnasol i **bob** achos statudol sy'n agored i'r YOT ar yr adeg y caiff yr wybodaeth ei chynhyrchu i ni, nid dim ond i achosion ar y rhestr hir.

### Gwybodaeth am Iechyd

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael, ar bapur ac yn electronig o ddewis, ar gyfer yr Arolygydd Iechyd:

- Rhestr o blant a phobl ifanc sydd ar ddedfryd haen gyntaf neu gymunedol ar hyn o bryd, neu sy'n destun dedfryd garcharol (boed wedi'u rhyddhau neu beidio) sy'n
    - derbyn triniaeth am gamddefnyddio alcohol neu sylweddau. Rhaid cynnwys y sgoriau Asset perthnasol.
    - yn derbyn, neu sydd wedi derbyn yn ystod eu dedfryd bresennol, ymyriad corfforol neu emosiynol/iechyd. Rhaid cynnwys y sgoriau Asset perthnasol.

- o Manylion sefydliadau darparu cefnogaeth iechyd a chamddefnyddio sylweddau y mae'r YOT yn gweithio'n agos â nhw, yn cynnwys manylion y rheolwr cyswllt ym mhob sefydliad.

DS: Mae'r cais uchod yn berthnasol i **bob** achos statudol sy'n agored i'r YOT ar yr adeg y caiff yr wybodaeth ei chynhyrchu i ni, nid dim ond i achosion ar y rhestr hir.

*DS: ym mhob un o'r ceisiadau uchod dylai gwybodaeth ar lefel achos gynnwys rhyw, cefndir ethnig a ph'un a oes anabledd sy'n hysbys. Gwnewch yn siŵr fod yr wybodaeth hon yn ddigonol i alluogi arolygydd i adnabod achosion penodol (e.e. gan ddefnyddio cyfeirnod yr achos), ond dylid gofalu i osgoi cynnwys unrhyw bethau dianghenraid fyddai'n adnabod person. Os bydd unrhyw rai o'r ceisiadau hyn am wybodaeth ddim ar gael yn hawdd dylid trafod hynny gyda'r Arolygydd Arweiniol.*

# 7 Paratoi ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes

- **Y Tîm** - Yn Lloegr mae'r tîm yn cynnwys Arolygydd Arweiniol Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Dirprwy Arolygydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Arolygydd (Comisiwn Ansawdd Gofal), Arolygydd (Ofsted - Dysgu a Sgiliau), Arolygydd (Ofsted - Gofal Cymdeithasol), Arolygydd (Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi), Arbenigwr Cyfranogiad Defnyddwyr Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi

  Yng Nghymru mae hyn yn cynnwys Arolygydd Arweiniol Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Dirprwy Arolygydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Arolygydd (Arolygiaeth Iechyd Cymru), Arolygydd (Estyn), Arolygydd (Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Cymru), Arolygydd (Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi) Arbenigwr Cyfranogiad Defnyddwyr Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi

- **Rheolwyr Cyswllt** - mae'n bwysig fod gan bob arolygiaeth reolwr cyswllt er mwyn gallu trafod ac addasu trefniadau'r arolygiad wrth iddo fynd yn ei flaen. Gofynnir i'r YOT enwebu rheolwr all ymgymryd â'r rôl hon, ar gyfer arolygiaethau unigol os yn bosibl. Yn nodweddiadol mae hyn yn debyg o fod yn:
  - o Rheolwr yr YOT - ar gyfer Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi
  - o Rheolwr gyda chyfrifoldeb blaen dros amddiffyn plant - ar gyfer Gofal Cymdeithasol Ofsted/CSSIW
  - o Rheolwr gyda chyfrifoldeb dros staff/gwasanaethau ETE - ar gyfer Dysgu a Sgiliau Ofsted/Estyn
  - o Rheolwr gyda chyfrifoldeb dros staff/gwasanaethau Iechyd – ar gyfer CQC/HIW.
  - o Rheolwr gyda chyfrifoldeb dros gysylltiadau heddlu – ar gyfer HMIC
  - o Gweithiwr cynnal neu weithiwr arall - ar gyfer arbenigwr cyfranogiad defnyddwyr

  Dylid cadarnhau manylion y rheolwyr cyswllt gyda'r Arolygydd Arweiniol yn y cyfarfod terfynol yn ystod wythnos 1 y gwaith maes.

- Mae ail wythnos y gwaith maes yn amrywiol iawn. Mae pob arolygiaeth yn ffocysu ar adran o'r meini prawf sy'n addas i'w rôl arbenigol ei hun, ac yn aml mewn ymateb i ganlyniadau'r asesiadau achos a gwybodaeth arall ymlaen llaw.

- Mae'r wythnos yn gymysgedd o:
  - **archwilio elfennau arbenigol** rhai o'r achosion, a dilyn y rhain ymlaen at asiantaethau sy'n bartneriaid lle mae hynny'n berthnasol (gweler y prif bwynt bwled nesaf am ragor o wybodaeth)

- **cwrdd ag aelodau'r bwrdd rheoli a phartneriaid** (yn yr YOT ac mewn asiantaethau sy'n bartneriaid lle mae hynny'n berthnasol)
- **cyfarfodydd gyda staff sydd wedi eu secondio, neu sy'n gweithio'n agos gyda'r YOT** (yn cynnwys ymarferwyr iechyd ac ETE a staff arbenigol arall, e.e. swyddogion llety, therapyddion iaith a lleferydd
- **grwpiau ffocws** (staff ac weithiau defnyddwyr gwasanaeth)
- **cyfranogiad gyda defnyddwyr gwasanaeth** (yn enwedig plant a phobl ifanc, dioddefwyr, a rhieni/gofalwyr sy'n gysylltiedig ag achosion gafodd eu hasesu yn wythnos 1 y gwaith maes)
- **arsylwi ymarfer,** yn enwedig mewn perthynas â dysgu a sgiliau ond ar adegau ar waith troseddu ieuenctid hefyd
- **archwilio cynlluniau,** data a gwybodaeth arall neu gofnodion perthnasol
- **cyfranogiad arall gyda phartneriaid**, lle mae plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOT yn cael eu trafod.

- Bydd rhai achosion gafodd eu harolygu yn ystod Wythnos 1 y Gwaith Maes yn cael eu harolygu eto gan arolygydd sy'n bartner, lle mae mewnbwn arbenigol penodol wedi ei nodi. Gall hyn olygu cyswllt gyda'r rheolwr achos a/neu weithwyr arbenigol fydd yn ddelfrydol ar gael i gynnal trafodaeth ar y prynhawn Llun a/neu ddydd Mawrth (gweler yr amserlen am fanylion). Ar gyfer rhai arolygiaethau mae'r rhain yn gyfweliadau sydd wedi'u hamserlennu, ac i eraill gofynnwn fod y staff hyn ar gael ar gais yr arolygydd.

  *DS: Mae cyfraniad asesiadau achos tuag at 'sgoriau' arolygwyr ar ansawdd ymarfer wedi'i gyfyngu i'r asesiadau sy'n cael eu cynnal yn ystod wythnos 1 y gwaith maes. Bydd unrhyw arolygu pellach ar waith achos yn ystod wythnos 2 y gwaith maes yn cyfrannu tuag at esboniadau a barnau ehangach.*

- **Amserlen Wythnos 2 y Gwaith Maes** - Byddwn yn gofyn i chi gynhyrchu amserlen ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes drwy lenwi amserlen model (taenlen Microsoft Excel) gaiff ei darparu gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi. Mae un dudalen ar gyfer pob arolygydd gydag ymrwymiadau penodedig wedi eu blocio allan a 'sesiynau' wedi eu trefnu ymlaen llaw lle gellir gosod cyfarfodydd. Caiff y model ei esbonio gan yr Arolygydd Arweiniol pan fydd yn trafod trefniadau ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes. Dylid rhoi bwlch o 15 munud o leiaf rhwng y gweithgareddau arolygu ar yr amserlen, gydag o leiaf 30 munud ar gyfer cinio, yn ogystal ag unrhyw amser teithio angenrheidiol. Er mwyn i ni allu gofyn am adborth gan y rhai gafodd eu cyfweld, gwnewch yn siŵr fod gan ein Swyddog Gwasanaethau Cefnogi gyfeiriadau e-bost pob un sy'n cael eu cyfweld, beth bynnag yw eu rôl neu gyfrifoldeb.

  Dylai'r amserlen orffenedig (h.y. yn cynnwys pob arolygydd) gael ei darparu ar gyfer pob aelod o'r tîm arolygu, ar bapur, wrth iddyn nhw gyrraedd y safle. Dylid anfon copi electronig at yr Arolygydd Arweiniol a Swyddog Gwasanaethau Cefnogi Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi **erbyn hanner dydd ar y dydd Iau cyn cychwyn Wythnos 2 y Gwaith Maes.** Efallai y bydd gofyn am gynnal gweithgareddau arolygu pellach wrth i'r gwaith maes fynd yn ei flaen, mewn ymateb i'r dystiolaeth gaiff ei chasglu a'r barnau cychwynnol.

- **Swyddfa i weithio ynddi a gofynion TG** - bydd angen gofod swyddfa ar bob arolygydd yn wythnos 2 y gwaith maes, ac enw defnyddiwr a mynediad i systemau TG yn yr un modd â'r rhai yn wythnos 1 y gwaith maes (gweler adran 4 uchod). Nid oes angen mynediad i'r system TG ar yr arbenigwr cyfranogiad defnyddwyr ond bydd angen rhywle lle mae soced drydan ar gael lle gall baratoi ar gyfer y cyfweliadau ac ysgrifennu nodiadau wedyn.

- **Cyfarfodydd gyda rheolwyr a phartneriaid strategol** - Awgrymwn yn gryf eich bod yn trefnu'r cyfweliadau hyn mor fuan â phosibl gan fod eu dyddiadau'n aml wedi eu trefnu ymhellach ymlaen llaw a bod pethau'n anoddach eu haildrefnu.
- **Gweithgareddau ychwanegol ar gyfer yr arolygiaethau sy'n bartneriaid** - mae'n debygol y bydd y rheolwr cyswllt perthnasol yn gofyn am y rhain pan fyddan nhw'n cyrraedd y safle, gan eu bod yn ymateb i ganlyniadau'r asesiadau achos a'r wybodaeth sy'n cael ei darparu ymlaen llaw. Nid yw'r arolygydd Dysgu a Sgiliau yn enwedig yn gwneud penderfyniad ynghylch pa ddarpariaeth ddysgu y mae am ymweld â hi nes ei fod wedi archwilio'r wybodaeth a ddarparwyd ymlaen llaw gan yr YOT. A wnewch chi felly roi rhybudd ymlaen llaw i ddarparwyr dysgu i blant a phobl ifanc sy'n destun Goruchwylio ac Adolygu Dwys neu sydd ag angen ETE wedi'i asesu, ei bod yn bosibl y gallan nhw gael ymweliad gan arolygydd Ofsted neu Estyn ar fyr rybudd.

  *DS Dylid dweud wrth y rhai sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd ei bod yn bosibl y byddan nhw'n cael eu canslo ar fyr rybudd, lle mae arolygwyr naill ai wedi casglu digon o dystiolaeth i wneud eu barn neu lle mae angen gwneud newid brys yn y cynlluniau. Ceisiwn osgoi gwneud hyn, ond ar yr adegau prin lle mae hyn yn digwydd bydd arolygwyr yn esbonio'r rhesymau dros y newid.*
- **Mynediad i adeiladau** - mae gwaith arolygu fel arfer yn cael ei gynnal ar un safle os yn bosibl. Lle mae gweithgareddau penodol yn digwydd ar safleoedd gwahanol, er enghraifft os mai dim ond ar safle arall mae partneriaid strategol allweddol ar gael neu os yw dioddefwyr neu rieni/gofalwyr yn cael eu gweld yn eu cartrefi neu mewn lleoliad arall sy'n addas ar eu cyfer, rhaid caniatáu digon o amser rhwng cyfarfodydd ar gyfer teithio/parcio.

  Os yw adeilad yr YOT yn caniatáu hyn, dylai **ystafell benodol** gael ei darparu ar gyfer y tîm arolygu, a gellir defnyddio hon hefyd ar gyfer cyfarfodydd arolygu. Os nad yw hyn yn bosibl gofynnir i'r YOT ddarparu ystafell i fod ar gael i gyfarfodydd y tîm arolygu ar y dyddiau canlynol:

    - Dydd Mawrth (9.00-10.00),
    - Dydd Mercher (9.00-10.00)
    - Dydd Iau (9.00-10.00 a 1.00pm -6.00pm)
    - Dydd Gwener (9.00-9.30)

# 7a Cyfranogiad Defnyddwyr

Bydd y trefniadau ar gyfer cyfweliadau ymgysylltu â defnyddwyr Arolygiaeth Prawf EM yn cael ei drafod yn y cyfarfod cynllunio.

### Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi

- Bydd cyfranogiad defnyddwyr gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn cael ei gynnal gan arolygydd ychwanegol sy'n ymroddedig i sicrhau bod yr arolygiad yn cael ei hysbysu gan lais defnyddwyr gwasanaeth. Yn aml myfyriwr/person graddedig diweddar mewn gwaith ieuenctid neu gymunedol, troseddeg neu radd berthynol fydd yr arolygydd, gyda phrofiad perthnasol diweddar a gwiriad CRB uwch, cyfredol. Caiff eu gwaith ei oruchwylio gan y Dirprwy Arolygydd Arweiniol.

- Gofynnir i'r YOT drefnu cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth.
- Gall cyfweliadau gychwyn o 3pm dydd Llun a pharhau tan 12.30pm dydd Iau; ar wahân i amserau penodol lle mae ganddynt ymrwymiadau arolygu eraill. Gall cyfweliadau gychwyn am 11am gydag argaeledd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn neu gyda rhywun yn gwarchod rhwng 5pm a 7pm o ddydd Llun i ddydd Mercher. Dylid caniatáu awr ar gyfer pob cyfweliad, gan ychwanegu unrhyw amser teithio gofynnol. Bydd hyn yn galluogi arolygwyr i sicrhau nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo dan bwysau i orffen cyfweliadau er mwyn cwrdd ag anghenion yr arolygydd.
- Ni ddylai cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc FYTH gael eu trefnu i wrthdaro gyda'u hymrwymiadau ETE, eu presenoldeb mewn gwaith grŵp YOT na'u presenoldeb mewn gweithgareddau rheolaidd eraill mae'r YOT yn ystyried sy'n rhan bwysig o'u cynllun gwaith.
- Ar gyfer **pob un** o'r grwpiau canlynol, dylai bod o leiaf 3, ond yn ddelfrydol 6, cyfweliad unigol gyda'r **rhai sy'n rhan o'r sampl achosion terfynol** - plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr. Rhain yw'r rhai lle mae'r plentyn neu'r person ifanc dan orchymyn statudol (gorchymyn cyfeirio/adferiad ieuenctid neu oruchwyliaeth ôl garchar, yn cynnwys Goruchwylio ac Adolygu Dwys, ac wedi cael eu rheoli gan yr YOT am o leiaf 3 mis). Os nad yw hyn yn darparu digon o enwau i lenwi'r amserlen dylai'r YOT drafod hyn gyda'r Arolygydd Arweiniol, a gellir cytuno i fynd at eraill sy'n hysbys i'r YOT ar y pryd o ganlyniad i ddedfrydau a orchmynnwyd gan y llys:
    - **Plant a phobl ifanc** - ***i'r rhai yn y sampl achosion terfynol***, i gynnwys amrywiaeth o fathau o ddedfryd ac os yn bosibl i gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal
    - **Rhieni/gofalwyr** – ***o'r rhai yn y sampl achosion terfynol***, i gynnwys amrywiaeth o fathau o ddedfryd, a lle'n bosibl i gynnwys un neu ragor o ofalwyr neu eraill arwyddocaol gyda chyfrifoldebau gofal
    - **Dioddefwyr** - ***o'r rhai yn y sampl achosion terfynol*****,** i gynnwys amrywiaeth eang o fathau o ddedfryd ac yn ddelfrydol cymysgedd o ddioddefwyr personol a chorfforaethol

    *DS Rhaid peidio â gwneud cais am gyfweliadau gyda dioddefwyr sydd wedi dewis yn benodol i ddiweddu eu cyswllt â'r YOT neu sydd erioed wedi ymateb i geisiadau'r YOT i ddod i gysylltiad â nhw.*

### Cynnal Cyfweliadau gyda Defnyddwyr Gwasanaeth

- Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb lle mae hynny'n bosibl, fel arfer yn adeilad yr YOT (ar wahân i gyfweliadau dioddefwyr), er y gellir cynnal cyfweliadau yn y cartref os yw'r YOT yn ystyried mai hynny sy'n briodol. Gellir cynnal cyfweliadau dros y ffôn os oes angen.
- Cynhelir pob cyfweliad fel arfer un ac un rhwng yr arolygydd a'r defnyddiwr gwasanaeth, a heb weithiwr YOT yn bresennol. Os nad yw cyfweliad un ac un yn briodol, er enghraifft am resymau diogelwch, dylid trafod trefniadau gwahanol ymlaen llaw gyda'r Dirprwy Arolygydd Arweiniol sy'n darparu cefnogaeth i'r arbenigwr cyfranogiad defnyddwyr.

- Dylai cyfweliadau gyda dioddefwyr troseddau gan blant a phobl ifanc gael eu trefnu ar amser ac mewn lleoliad sy'n cwrdd ag anghenion y dioddefwr. Fel arfer **ni** fyddai hyn yn adeilad yr YOT oni bai, yn eithriadol, fod y dioddefwr wedi arfer ymweld â'r lleoliad hwnnw.
- Yn yr un modd, gall cyfweliadau gyda rhieni/gofalwyr gael eu cynnal yng nghartref y teulu os yw'r YOT yn ystyried mai dyna sydd fwyaf priodol.
- Ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb y tu allan i'r YOT, gofynnwn fod gweithiwr YOT sy'n hysbys i'r dioddefwr neu'r rhiant/gofalwr yn gweithredu fel gwarchodwr ar gyfer yr arolygydd, gan ei gludo i'r cyfweliad, ei gyflwyno ac yna aros mewn ystafell gyfagos nes bydd y cyfweliad ar ben.

### Arolygydd Iechyd (CQC/HIW)

- Byddai manylion unrhyw ofynion cyfranogiad defnyddwyr gan yr arolygydd iechyd yn cael eu cytuno yn y cyfarfod cychwynnol gyda'r rheolwr cyswllt ar ddechrau wythnos 2 y gwaith maes, er eu bod yn debygol o ddibynnu ar dystiolaeth o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi.

### Arolygydd Dysgu a Sgiliau (Ofsted/Estyn)

- Byddai manylion unrhyw ofynion cyfranogiad defnyddwyr gan yr arolygydd dysgu a sgiliau yn cael eu cytuno yn y cyfarfod cychwynnol gyda'r rheolwr cyswllt ar ddechrau wythnos 2 y gwaith maes. Lle mae hynny'n bosibl, mae hyn yn debygol o fod mewn cydweithrediad â'u hymweliadau â darpariaeth ETE, ac mae'n annhebygol y bydd angen gwneud trefniadau ar wahân.

### Arolygydd Gofal Cymdeithasol (Ofsted/AGGCC)

- Byddai manylion penodol unrhyw ofynion cyfranogiad defnyddwyr gan yr arolygydd gofal cymdeithasol yn cael eu cytuno yn y cyfarfod cychwynnol gyda'r rheolwr cyswllt ar ddechrau wythnos 2 y gwaith maes, er eu bod yn debygol o ddibynnu ar dystiolaeth o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi. Fodd bynnag, lle mae'r cyfle'n codi, byddai'r arolygydd yn hoffi cwrdd ag un neu ragor o blant sy'n hysbys i'r YOT ar y pryd sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn ystod eu dedfryd gyfredol**.**

### HMIC

- Byddai manylion penodol unrhyw ofynion cyfranogiad defnyddwyr gan yr arolygydd HMIC yn cael eu cytuno yn y cyfarfod cychwynnol gyda'r rheolwr cyswllt ar ddechrau wythnos 2 y gwaith maes, er eu bod yn debygol o ddibynnu ar dystiolaeth o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi.

### Taflenni Defnyddwyr Gwasanaeth

- Mae taflenni ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn esbonio pwrpas yr arolygiad, ynghyd â ffurflenni cydsynio ar gyfer cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi neu gan y Swyddog Gwasanaethau Cefnogi.

## 7b Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi- trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu gosod yn barod yn amserlen wythnos 2 y gwaith maes, yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth yr arolygiad a'r tîm arolygu. Byddwn yn gofyn i chi drefnu'r canlynol yn ychwanegol (gyda naill ai'r Arolygydd Arweiniol neu'r Dirprwy Arolygydd Arweiniol lle nad yw wedi'i nodi).
Mae cyfweliadau gyda phersonél strategol fel arfer yn cynnwys dau arolygydd. Ar y cyfan mae'r cyfnod rhwng 3pm a 5.30 pm dydd Llun, 10.30am a 5pm dydd Mawrth a dydd Mercher a 10.30 a 12.30 dydd Iau ar gael ar gyfer y rhain.

- **Cyfweliad arolygu gyda Rheolwr yr YOT** - cyfarfod ar y cyd gyda'r Arolygydd Arweiniol a'r Dirprwy Arolygydd Arweiniol – 2 awr NID dydd Llun
- **Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT** - cyfarfod ar y cyd gyda'r Arolygydd Arweiniol a'r Dirprwy Reolwr Arweiniol – 1 awr NID dydd Llun
- **Rheolwr sy'n gyfrifol am Sicrhau Ansawdd** yn yr YOT – 1 awr
- **Grŵp ffocws o staff sy'n gweithio ar achosion statudol** (NID staff arbenigol - 1.5 awr
- **Grŵp ffocws o reolwyr canol YOT** – 1.5 awr
- **Aelodau o Fwrdd Rheoli'r YOT** nad ydynt yn cael eu gweld gan unrhyw arolygiaeth arall - un cyfarfod gyda'r Arolygydd Arweiniol/Dirprwy Arolygydd Arweiniol 1.5 awr (NID dydd Llun)
- **Arsylwi ymarfer** - yn amodol ar alwadau eraill y rhaglen arolygu a'u gwerth yn y dyfarniadau arolygu terfynol, efallai y bydd peth arsylwi'n digwydd ar waith grŵp neu agweddau eraill o'r gwaith ar achosion statudol sy'n digwydd yn ystod yr oriau arolygu. Os yw'r YOT yn ystyried bod gweithgareddau fyddai'n arbennig o werthfawr i'r arolygiad ac sy'n addas ar gyfer eu harsylwi, gofynnir iddynt drafod y rhain gyda'r Arolygydd Arweiniol yn ystod wythnos 1 y gwaith maes. Yr Arolygydd Arweiniol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth sy'n digwydd.
- **Gweithgareddau ychwanegol** - bydd yr Arolygydd Arweiniol yn gofyn am drefnu amrywiaeth o weithgareddau arolygu eraill. Bydd y rhain yn cael eu trafod gyda rheolwr yr YOT wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen. Ymysg y gweithgareddau nodweddiadol y gellir gofyn amdanynt mae cyfarfod gyda staff cefnogi, archwilio cofnodion goruchwylio a hyfforddi staff, cwrdd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant a/neu aelod etholedig cyfrifol a/neu brif weithredwr, cwrdd â gweithwyr dioddefwyr, cwrdd â gwirfoddolwyr, cyfarfodydd gyda staff eraill nad ydynt yn gyfrifol am achosion. Os ydych chi'n credu y byddai gweithgareddau arolygu penodol eraill yn gymorth i hysbysu meini prawf penodol yr arolygiad neu i ddangos arfer da, siaradwch gyda'r Arolygydd Arweiniol yn wythnos 1 y gwaith maes. Yr Arolygydd Arweiniol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth sy'n digwydd.

## 7c Iechyd – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu gosod yn barod yn amserlen wythnos 2 y gwaith maes, yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth yr arolygiad a'r tîm arolygu. Byddwn yn gofyn i chi drefnu'r canlynol yn ychwanegol.

**Rheolwr cyswllt yr YOT** - prynhawn dydd Llun 2-2.30 pm (mewn rhai arolygiadau yn Lloegr gall hwn gael ei gynnal ar fore dydd Mawrth 10.00-10.30), hefyd prynhawn Mawrth a Mercher 5-5.30 pm.

**Prynhawn dydd Llun a bore dydd Mawrth** (mewn rhai arolygiadau yn Lloegr gall hwn gychwyn ar fore dydd Mawrth a mynd ymlaen drwy gydol y dydd hwnnw) - archwilio iechyd (emosiynol a chorfforol) ac agweddau camddefnyddio sylweddau mewn sampl o achosion, sef is set o'r sampl achosion y bydd yr Arolygydd Arweiniol wedi eich hysbysu amdanynt. Fel arfer am hanner cyntaf y diwrnod, yn fras am 30 munud yr achos, fel arfer mewn cydweithrediad â'r gweithwyr perthnasol. Bydd achosion ar gyfer yr ail hanner diwrnod yn cael eu cadarnhau gan y rheolwr cyswllt yn yr YOT pan fydd yr arolygydd iechyd yn cyrraedd y safle. Nid oes angen amserlen ar gyfer y gwaith hwn - yn hytrach bydd yr arolygwyr yn dod o hyd i'r staff perthnasol pan fydd angen siarad â nhw. Mae'r gwaith hwn angen mynediad i gofnodion iechyd ar yr achosion sy'n cael eu cadw yn yr YOT.

**Cyfarfodydd eraill:**

- **Rheolwyr canol (neu eraill) yn gyfrifol am arbenigwyr iechyd.** (1 awr)
- **Cyfarfodydd unigol** (yn ôl arbenigedd) gyda staff iechyd a chamddefnyddio sylweddau arbenigol, ond gellir eu cyfuno i fod yn drafodaethau achos (gweler uchod)
- **Cyfarfodydd unigol gyda chynrychiolwyr iechyd ar y bwrdd rheoli** - 30 munud yr un (NID dydd Mawrth, dydd Iau o ddewis)
- **Cyfarfodydd gyda rheolwyr cyswllt perthnasol o ochr y darparwyr** (1 awr am bob cyfweliad)

Mae'r cyfnodau rhwng 11.45pm a 16.45 dydd Mercher a rhwng 10.15 a 12.30 dydd Iau fel arfer ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Mewn arolygiadau yng Nghymru, a rhai arolygiadau yn Lloegr, gall y cyfnod rhwng 2pm a 4.15pm ar ddydd Mawrth fod ar gael hefyd.

Bydd gweithgaredd arolygu pellach yn cael ei gytuno rhwng arolygydd iechyd a'u rheolwr cyswllt yn eu cyfarfod cyntaf ar y dydd Mawrth, ac wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen.

DS: Bydd yr Arolygydd Arweiniol yn cadarnhau, yn ystod y cyfarfod cynllunio, pa batrwm o arolygiad iechyd fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arolygiadau yn Lloegr .

# 7d Gofal Cymdeithasol – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu gosod yn barod yn amserlen wythnos 2 y gwaith maes, yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth yr arolygiad a'r tîm arolygu. Byddwn yn gofyn i chi drefnu'r canlynol yn ychwanegol:

**Rheolwr cyswllt yr YOT** - prynhawn dydd Llun 2-2.30 pm, dydd Mawrth a dydd Mercher 5-5.30 pm.

**Prynhawn dydd Llun** a bore dydd Mawrth - archwiliad o is set achosion, tua 1 awr yr achos, wedi'i amserlennu a gyda'r gweithwyr perthnasol (Rheolwr achos ac unrhyw un arall sydd â rhan arwyddocaol yn yr achos). Gweler yr amserlen am amserau slot. Achosion fydd y rhain wedi eu dethol o wythnos 1 y gwaith maes ac y bydd yr arolygydd Arweiniol wedi eich hysbysu amdanynt.

Lle mae achosion amddiffyn plant eraill dan oruchwyliaeth yr YOT ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd yr arolygydd gofal cymdeithasol hefyd am eu harchwilio nhw, yn enwedig os nad oedd achosion amddiffyn plant yn sampl gwaith maes wythnos 1. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gyda'r rheolwr YOT cyswllt pan fydd yr arolygydd yn cyrraedd ar y safle.

**Cyfarfodydd eraill:**

- **Rheolwr arweiniol dros amddiffyn plant yn yr YOT** (1 awr)
- **Swyddog Penodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) dros amddiffyn plant** - gall fod dros y ffôn (1 awr). Cyfarfod posibl yw hwn a dim ond os bydd ei angen ar yr arolygydd gofal cymdeithasol y bydd yn cael ei gynnal.
- **Swyddog arweiniol ar amddiffyn plant yn yr awdurdod lleol** (1 awr)
- **Rheolwr yn yr YOT sy'n gyfrifol am reoli perfformiad** (1 awr)
- **Gwasanaethau cymorth cynnar** - efallai y bydd yr arolygydd gofal cymdeithasol am weld cynrychiolwyr o asiantaethau sy'n bartneriaid sy'n gyfrifol am wasanaethau cymorth megis rhianta, ac edrych ar waith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Er y bydd unrhyw ofynion mewn perthynas â hyn yn cael eu cytuno gyda'r arolygydd a'r rheolwr cyswllt ar y prynhawn dydd Llun gall fod yn ddoeth hysbysu partneriaid am y posibilrwydd.
- **Gweithwyr cymdeithasol wedi'u secondio** - Mae'n debygol y bydd yr arolygydd gofal cymdeithasol yn dymuno cwrdd â'r gweithwyr cymdeithasol ar secondiad, neu fel arall asesu a oes digon o sgiliau gweithwyr cymdeithasol ar gael ac yn cael eu defnyddio'n briodol yn yr YOT.

Lle mae mwy nag un person mewn cyfweliad, dylid ymestyn yr amser i 1.5 awr.

Mae'r cyfnodau rhwng 2pm a 4.15 dydd Mawrth a 11.45 tan 4.45 dydd Mercher a 10.15 tan 11.30 dydd Iau fel arfer ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Bydd gweithgaredd arolygu pellach yn cael ei gytuno rhwng arolygydd gofal cymdeithasol a'u rheolwr cyswllt yn eu cyfarfod cyntaf ar y prynhawn dydd Llun, ac wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen. Efallai y bydd y rheolwr cyswllt yn benodol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n cael eu cynnal yn yr

awdurdod lleol yn ystod yr wythnos hon sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn y sampl achosion terfynol.

## 7e Dysgu a Sgiliau – trefniadau ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu gosod yn barod yn amserlen wythnos 2 y gwaith maes, yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth yr arolygiad a'r tîm arolygu. Byddwn yn gofyn i chi drefnu'r canlynol yn ychwanegol:

**Rheolwr cyswllt yr YOT** - prynhawn dydd Llun 2-2.30 pm, dydd Mawrth a dydd Mercher 5-5.30 pm.

**prynhawn dydd Llun** a bore Dydd Mawrth - archwiliad o is set achosion, tua 45 munud yr achos, wedi'i amserlennu a gyda'r gweithwyr perthnasol (Rheolwr achos ac unrhyw un arall sydd â rhan arwyddocaol yn yr achos). Gweler yr amserlen am amserau slot. Achosion fydd y rhain wedi eu dethol o wythnos 1 y gwaith maes ac y bydd yr arolygydd arweiniol wedi eich hysbysu amdanynt.

Bydd achosion ychwanegol yn cael eu penderfynu gan yr arolygydd Ofsted/Estyn - Dysgu a Sgiliau, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd ymlaen llaw a'i chadarnhau gyda'r rheolwr cyswllt ar y prynhawn Llun.

**Ymweliadau â darpariaethau dysgu -** Mae llawer o gyfraniad Dysgu a Sgiliau tuag at yr arolygiad yn debyg o gynnwys ymweld â mannau darparu dysgu i blant a phobl ifanc sy'n destun Goruchwylio ac Adolygu Dwys neu fel arall sy'n hysbys i'r YOT gydag asesiad o angen ETE. Lle mae hyn yn bosibl, bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr (dros y ffôn mae'n debyg), eu hathrawon/tiwtoriaid ac ati. Bydd manylion hyn yn cael eu cadarnhau gyda'r rheolwr cyswllt ar y prynhawn Llun.

**Cyfarfodydd eraill:**

- **Staff ETE arbenigol** - y rhai sy'n gweithio yn yr YOT (1 awr)
- **Cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Plant/Connexions lleol** (1 awr)
- **Cyfarfod gyda'r cyswllt lles iechyd** yn yr awdurdod lleol (1 awr)
- **Cynrychiolydd o'r Bwrdd Rheoli** (1 awr)

Mae'r cyfnodau rhwng 12.15pm a 4.15 dydd Mawrth a 10.30 tan 4.45 dydd Mercher fel arfer ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Bydd gweithgaredd arolygu pellach yn cael ei gytuno rhwng arolygydd HMIC a'u rheolwr cyswllt yn eu cyfarfod cyntaf ar y prynhawn dydd Llun, ac wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen.

## 7f Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu gosod yn barod yn amserlen wythnos 2 y gwaith maes, yn ymwneud yn bennaf â rheolaeth yr arolygiad a'r tîm arolygu. Byddwn yn gofyn i chi drefnu'r canlynol yn ychwanegol:

**Rheolwr cyswllt yr YOT** – dydd Mawrth 10:00-10.30am. Gellir trefnu cyswllt pellach yn ôl yr angen.

**Bore dydd Mawrth** - archwilio achosion is set yn yr YOT, fel arfer achosion lle mae risg uchel o niwed neu lefel uchel o freguster, neu lle mae'r achos yn dangos agweddau cadarnhaol neu negyddol o weithio mewn partneriaeth, (tua 30 munud yr achos, fel arfer mewn cydweithrediad â'r gweithwyr perthnasol). Nid oes angen amserlen cyfarfodydd gyda gweithwyr achos ar gyfer y gwaith hwn - yn hytrach bydd yr arolygwyr yn dod o hyd i'r staff perthnasol pan fydd angen siarad â nhw. Achosion fydd y rhain wedi eu dethol o wythnos 1 y gwaith maes ac y bydd yr arolygydd arweiniol wedi eich hysbysu amdanynt.

**Prynhawn dydd Mawrth** - archwilio cofnodion yr heddlu ar achosion penodol mewn lleoliad yr heddlu. Gwneir hyn fel arfer gyda chymorth swyddogion yr heddlu sydd wedi eu lleoli o fewn yr YOT. Bydd yr arolygydd yn gwneud trefniadau'n uniongyrchol gyda swyddog cyswllt HMIC yn y llu heddlu lleol ar gyfer y gwaith hwn.

**Cyfarfodydd eraill:**

- **Cyfarfod gyda staff heddlu'r YOT** - dydd Mercher o ddewis 1pm i 3pm
- **Cyfarfod gyda chynrychiolydd yr Heddlu ar y Bwrdd Rheoli** (1 awr) - dydd Iau o ddewis 11.30 i 12.30
- **Cyfarfod gyda chynrychiolydd MAPPA yr heddlu** (1 awr) - dydd Mercher o ddewis 3.30 i 4.30pm
- **Cyfarfod gyda'r person cyswllt Rheoli Integredig dros Reolwyr (IOM)** (1 awr). Dylid trefnu hyn mewn cydweithrediad â swyddog cyswllt HMIC yn y llu heddlu lleol.

Mae'r cyfnodau rhwng 1pm a 4.30 dydd Mercher a 10.15 tan 11.30 dydd Iau fel arfer ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Bydd gweithgaredd arolygu pellach yn cael ei gytuno rhwng arolygydd HMIC a'u rheolwr cyswllt yn eu cyfarfod cyntaf ar y dydd Mawrth, ac wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen.

# 8 Gwaith Maes Wythnos 2

Bydd arolygwyr **ar y safle o 1.00pm dydd Llun i ddim hwyrach na 1.00pm dydd Gwener.**

Gall gwaith wedi'i amserlennu gychwyn o 10.15am bob dydd tan 5.00pm ar wahân i'r amserau sydd wedi cael eu neilltuo ar gyfer cyfarfodydd/gweithgareddau a drefnwyd ymlaen llaw. Wrth gwblhau'r amserlen rhaid peidio ag amserlennu gwaith yn yr adegau sydd eisoes wedi eu clustnodi ar gyfer gweithgareddau eraill.

Bydd yr arbenigwr cyfranogiad defnyddwyr fel arfer yn dechrau gwaith am 11am a bydd ar gael heb fod yn hwyrach na 7pm. (gweler paragraff 7a).

*DS Os byddwch, mewn amgylchiadau eithriadol, am amserlennu gwaith y tu allan i'r oriau hyn yna dylid ceisio cytundeb ymlaen llaw gan yr Arolygydd Arweiniol (os gwneir y cais cyn i'r arolygwyr gyrraedd y safle ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes) neu fel arall gyda'r arolygydd arbenigol perthnasol (os ydyn nhw eisoes wedi cyrraedd ar y safle).*

- Bydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, arolygwyr dysgu a sgiliau ac iechyd a'r arbenigwr cyfranogiad defnyddwyr yn cyrraedd i ddechrau gwaith am 1.00pm ar y dydd Llun; er mewn rhai arolygiadau yn Lloegr gall yr arolygydd iechyd gyrraedd ar y bore dydd Mawrth. Bydd yr arolygydd HMIC yn cyrraedd i gychwyn gwaith am 8.30am ar y dydd Mawrth.

  Bydd yr wythnos yn cychwyn gyda briffio ar y safle ar Iechyd, Diogelwch a TG rhwng 1.30 a 2.00pm ar gyfer pob aelod o'r tîm arolygu sy'n cychwyn ar y dydd Llun ac am 8.30-9.00 dydd Mawrth ar gyfer y rhai sy'n cychwyn ar y dydd Mawrth (HMIC ac weithiau, yn Lloegr, Iechyd).

# 9 Cyfarfod canfyddiadau'r arolygiad

Cynhelir hwn ar ddiwedd Wythnos 2 y Gwaith Maes, **Dydd Gwener 10-12 ganol dydd.**

- Cyfarfod ar y cyd dan arweiniad yr Arolygydd Arweiniol ac yn cynnwys cyfraniadau gan bob arolygiaeth sydd wedi bod ar y safle. Mae hwn yn debyg o gynnwys cyflwyniad PowerPoint, felly gofynnir i'r YOT drefnu ystafell addas a sicrhau bod cyfleusterau taflunio addas ar gael, a rhoi gwybod i ni mewn da bryd os nad yw'r ystafell yn adeiladau'r YOT lle cafodd yr arolygiad ei gynnal.
- Dyma'r cyfle i gael adborth ffurfiol ar ganfyddiadau'r arolygiad wyneb yn wyneb. Hoffem weld y canlynol yn y cyfarfod:
    - Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol
    - Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT
    - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant
    - Aelod etholedig o'r Awdurdod Lleol gyda chyfrifoldeb dros faterion plant/ieuenctid
    - Aelod etholedig o'r Awdurdod Lleol gyda chyfrifoldeb dros faterion trosedd ac anhrefn
    - Rheolwr yr YOT
    - Aelodau o Fwrdd Rheoli'r YOT - yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli partneriaid statudol
    - Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (neu gyfatebol)
    - Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a Lles (neu gyfatebol)
    - Tîm rheoli'r YOT
    - Efallai y bydd yr YOT hefyd am ystyried gwahodd aelod etholedig o'r awdurdod lleol gyda chyfrifoldeb dros addysg, ynghyd â phartneriaid neu swyddogion eraill sydd â diddordeb yng ngwaith yr YOT neu y mae'r YOT yn gweithio'n agos gyda nhw.

Ceisiwch annog y bobl bwysig hyn i fynychu. Os nad ydynt yn gallu dod, gofynnwch iddynt anfon rhywun yn eu lle.

Dyma'r unig gyfle i bartneriaid allweddol glywed a thrafod canfyddiadau'r arolygiad yn uniongyrchol gyda'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygydd arweiniol yn cynnig cyflwyniad o'r canfyddiadau wedi hynny yn benodol ar gyfer staff yr YOT - gan amseru'r cyfarfod i fod yn addas i'r YOT ac i'r arolygydd arweiniol.

# 10 Rhestr wirio o weithgareddau paratoadol ar gyfer yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn darparu rhestr wirio o'r prif weithgareddau i'w gwneud gan yr YOT i baratoi ar gyfer yr arolygiad.

| Eitem | Gweler paragraff | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| 1 | 3 | Cwblhau rhestr hir o achosion a'i hanfon at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi |
| 2 | 5 | Trefnu cyfarfod briffio cychwynnol ac anfon gwahoddiadau |
| 3 | | Briffio staff am yr arolygiad |
| 4 | | Briffio partneriaid ar yr arolygiad a sicrhau ymroddiad iddo |
| 5 | 3 | Trefnu amserlen ar gyfer asesiadau achos yn ystod Wythnos 1 y Gwaith Maes |
| 6 | 3 | Anfon amserlen Wythnos 1 y Gwaith Maes at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi |
| 7 | 9 | Trefnu cyfarfod Canfyddiadau, anfon gwahoddiadau, trefnu taflunydd |
| 8 | 3 | Darparu gwybodaeth gychwynnol ymlaen llaw ar gyfer Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi |
| 9 | 4 | Trefnu mynediad TG ar gyfer arolygwyr yn ystod Wythnos 1 y Gwaith Maes |
| 10 | 4 | Trefnu lle mewn swyddfa ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes |
| 11 | | Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i ddarparu cefnogaeth ar gyfer Wythnos 1 Gwaith Maes yr arolygiad (copïau o'r amserlen, mynediad i swyddfa, ffeiliau ar gael bob dydd ac ati) |
| 12 | 7 | Trefnu rheolwyr cyswllt ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 13 | 6 | Darparu gwybodaeth ddilynol ymlaen llaw ar gyfer arolygiaethau sy'n bartneriaid |
| 14 | 7a | Trefnu ymgysylltiad plant a phobl ifanc ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 15 | 7a | Trefnu ymgysylltiad rhieni/gofalwyr ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 16 | 7a | Trefnu ymgysylltiad dioddefwyr ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 17 | 7 | Trefnu lleoliad ac ystafelloedd cyfweld ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 18 | 7b | Trefnu gweithgareddau Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 19 | 7c | Trefnu gweithgareddau Iechyd ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 20 | 7d | Trefnu gweithgareddau Gofal Cymdeithasol ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 21 | 7e | Trefnu gweithgareddau Dysgu a Sgiliau ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |
| 22 | 7f | Trefnu gweithgareddau Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi ar gyfer Wythnos 2 y Gwaith Maes |

| | | |
|---|---|---|
| 23 | 7 | Anfon amserlen Wythnos 2 y Gwaith Maes at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi |

| **Dyddiadau Arolygiadau Llawn ar y Cyd 2014/15** | |
|---|---|
| **Gwaith Maes Wythnos 1** | **Gwaith Maes Wythnos 2** |
| Wythnos 1 - w / c 27 Ionawr, 2014 | Wythnos 2 - w / c 10 Chwefror, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 10 Mawrth, 2014 | Wythnos 2 - w / c 24 Mawrth, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 12 Mai, 2014 | Wythnos 2 - w / c 2 Mehefin, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 16 Mehefin, 2014 | Wythnos 2 - w / c 7 Gorffennaf, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 15 Medi, 2014 | Wythnos 2 - w / c 29 Medi, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 10 Tachwedd, 2014 | Wythnos 2 - w / c 24 Tachwedd, 2014 |
| Wythnos 1 - w / c 19 Ionawr, 2015 | Wythnos 2 - w / c Chwefror 2, 2015 |
| Wythnos 1 - w / c Mawrth 2, 2015 | Wythnos 2 - w / c 16 Mawrth, 2015 |

**Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi**
**adolygwyd** Chwefror **2014**